Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

1.1 Ofcom yw'r rheoleiddiwr annibynnol gyda chyfrifoldeb am deledu, radio, telegyfathrebiadau a gwasanaethau cyfathrebu diwifr yng Ngwledydd Prydain. Rhan o'n dyletswyddau yw gosod safonau ar gyfer hysbysebion ar deledu. Rhaid i bob darlledwr teledu gydymffurfio â'r safonau hyn mewn perthynas ag unrhyw hysbyseb a ddarlledir ganddynt. Yn hwyr yn 2004 fe drosglwyddwyd y cyfrifoldeb am Gôd Safonau Hysbysebu ar Deledu i'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA), gan gynnwys swyddogaethau delio â chwynion a datblygiad polisi. Dan y cynllun cyd-reoli hwn fodd bynnag, Ofcom, fel y rheoleiddiwr terfynol, sydd â chyfrifoldeb am holl hysbysebu teledu yn y pen draw dan dermau'r Ddeddf Gyfathrebu 2003. Cyfrifoldeb uniongyrchol Ofcom yw polisi amserlennu hysbysebion.

1.2 Ymysg yr amcanion perthnasol sydd i'w sicrhau gan y safonau hyn mae diogelu pobl dan ddeunaw oed, ac atal cynnwys hysbysebion all achosi niwed. Mae gan Ofcom nifer o ddyletswyddau eraill hefyd sy'n rhaid eu hystyried gan gynnwys gweithredu er budd dinasyddion a phrynwyr, cynnal lluosogrwydd yn y ddarpariaeth ddarlledu a sicrhau y ceir ystod eang o wasanaethau teledu o ansawdd uchel ac sydd o ddiddordeb eang. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn rhaid i Ofcom ystyried, ymysg pethau eraill, y niwed posib i blant. Wrth osod mesurau rheoleiddio rhaid i Ofcom ymddwyn mewn modd cyfatebol ac uniongyrchol.

Cefndir

1.3 Mae corff cynyddol o ymchwil[1] wedi amlygu pryderon ymysg y llywodraeth a chymdeithas ynghylch y codiad cynyddol yn lefelau gordewdra ymysg plant ac afiechyd yn sgil diet anghytbwys, yn benodol gorfwyta bwydydd sydd â lefel uchel o fraster, halen a siwgr (bwydydd UBHS)[2] a diffyg bwyta bwyd ffres, ffrwythau a llysiau. Mae'r Adran Iechyd (AI) ac Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi canfod hysbysebu teledu fel maes ble y dylid ystyried gweithredu i gyfyngu ar hyrwyddo bwydydd UBHS i blant.

1.4 Yn Rhagfyr 2003, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Tessa Jowell AS i Ofcom ystyried cynigion ar gyfer atgyfnerthu'r rheolau ar hysbysebu bwyd wedi ei anelu at blant ar deledu.

1.5 Mewn ymateb, yn gynnar yn 2004, cynhaliodd Ofcom ymchwil i'r rôl y mae hysbysebion teledu yn ei chwarae wrth ddylanwadu ar blant parthed defnyddio bwydydd UBHS. Yn yr adroddiad ymchwil a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2004 casglodd Ofcom bod hysbysebu yn cael effaith resymol, uniongyrchol ar ddewis bwyd plant ac effaith anuniongyrchol mwy ond

---

[1] Gweler er enghraifft: Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol (3 Gorffennaf 2003); Ystadegau Gor-dewdra (12 Rhagfyr 2005); Tackling Obesity in England (Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2001)

[2] Gweler er enghrafft: *The National Diet and Nutrition Survey of Young People aged 4 to 18 years* (FSA Mehefin 2000); *The FSA's School Lunchbox Survey* (FSA Mai 2003).

anfesuradwy parthed hoffter a defnydd bwyd ar blant a'u hymddygiad. Casglodd Ofcom felly bod achos ar gyfer gweithredu cyfatebol ac uniongyrchol yn nhermau rheolau ar gyfer darlledu hysbysebion i fynd i'r afael ag iechyd a gordewdra ymysg plant. Fodd bynnag, nododd Ofcom hefyd mai un o'r casgliadau o'r ymchwil annibynnol oedd bod amryw o ffactorau yn gyfrifol am ordewdra ymysg plant. Un dylanwad ymysg nifer yw gwylio/hysbysebu teledu ar ddewis bwyd plant. Ymysg y ffactorau eraill hyn mae ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, sydd oll yn rhyngweithio'n mewn ffyrdd cymhleth, sydd ddim yn hawdd i'w deall hyd yn hyn. Yn yr amgylchiadau hyn ystyriodd Ofcom na fyddai atal hysbysebu bwyd yn gyfan gwbl yn gyfatebol nac yn effeithiol ar ben ei hun,.

1.6 Yn Nhachwedd 2004, cyhoeddodd yr Adran Iechyd Bapur Gwyn yn ailadrodd barn y Llywodraeth bod yna 'achos cryf dros atal ymhellach hysbysebu a hyrwyddo i blant o'r bwydydd a diodydd hynny sydd â chynnwys uchel o fraster, halen a siwgr' yn y cylchoedd darlledu a ddim ar gyfer darlledu. Ar yr un pryd, fe gyhoeddodd yr ASB ymgynghoriad ar gynllun fyddai'n adnabod cynnyrch bwyd a diod sydd â chynnwys uchel o fraster, halen neu siwgr trwy gyfrwng proffilio maethol (NP). Bwriedir i'r model hwn fod yn gymorth i Ofcom i ddod i benderfyniad ar atal hysbysebion teledu am fwyd llai iach. Yn Rhagfyr 2005, fel cwblhaodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) eu gwaith ar y proffilio maethol a'i gyflwyno i Ofcom.

Proses Ymgynghorol

1.7 Ym Mawrth 2006, yn wyneb ei ddyletswyddau statudol ac o ystyried y brif dystiolaeth, fe gychwynnodd Ofcom ymgynghoriad cyhoeddus ar amryw o ddewisiadau ar gyfer cyfyngu ar hysbysebion teledu i blant, gan gynnwys tri phecyn penodol a ganfuwyd:

- Pecyn 1 - Cyfyngiadau amser yn atal hysbysebu bwydydd a diodydd gyda chynnwys uchel o fraster, halen a siwgr rhag cael eu darlledu yn ystod rhaglenni plant

- Pecyn 2 – Cyfyngiadau amser yn atal hysbysebu unrhyw gynnyrch bwyd a diod yn ystod rhaglenni plant

- Pecyn 3 – Atal ar sail cyfaint ar holl gynyrchiadau bwyd a diod

1.8 Ymysg yr opsiynau eraill a drafodwyd yn y ddogfen ymgynghorol ac a ymgynghorwyd arnynt roedd hunanreoleiddio gwirfoddol ac atal hysbysebu UBHS cyn 9pm. Estynnodd Ofcom wahoddiad hefyd i unrhyw randdeiliad i gynnig pedwerydd pecyn o gynigion os oedd yn denu cefnogaeth eang gan ddarlledwyr, hysbysebwyr, gwerthwyr a chynhyrchwyr.

1.9 Cynhyrchwyd Asesiad Effaith i gyd fynd gyda'r ymgynghoriad oedd yn cynnwys dadansoddiad o effaith y pecynnau polisi a'r dewisiadau eraill yn y ddogfen ymgynghorol ar faint o hysbysebu mae plant yn ei weld, eu heffaith tebygol ar ddarlledwyr a rhan-ddeiliaid eraill, a hefyd asesiad o'r buddiannau tebygol (yn seiliedig ar ddadansoddiad yr ASB). Dyddiad cau'r ymgynghoriad oedd 6 Mehefin 2006.

1.10 Ar 19 Mai, cyhoeddodd Ofcom y byddai'n cyhoeddi diweddariad i'r Asesiad Effaith gyda'r bwriad o'i wneud yn fwy syml i ailadrodd y dadansoddiad a ymgymerwyd gan Ofcom, yn arbennig felly trwy ddefnyddio'r wybodaeth

fwyaf cyfredol ar gyfer y flwyddyn 2005. Er mwyn rhoi'r cyfle i'r ymgynghorai i ystyried y data adolygedig a'i ystyried yn eu hymateb i'r ymgynghoriad. Cyhoeddodd Ofcom ei fod yn ehangu'r cyfnod ymgynghoriad hyd 30 Mehefin 2006. Cyhoeddwyd y diweddariad hwn i'r ymgynghoriad ar 8 Mehefin 2006.

Crynodeb o'r Ymateb a Gafwyd

1.11 Derbyniodd Ofcom 1097 ymateb i'w ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys 114 ymateb gan amryw o fuddgyfranogwyr gan gynnwys cyrff defnyddwyr, darlledwyr, academyddion, hysbysebwyr, cynhyrchwyr bwyd a chyrff iechyd a meddygol a gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban. Cafwyd nifer fawr o ymatebion gan unigolion preifat.

1.12 Derbyniodd Ofcom gynnig hefyd gan yr Uned Hysbysebu Bwyd (UHB) ar ran y diwydiannau bwyd, diodydd meddal a hysbysebu mewn ymateb i wahoddiad Ofcom i gynnig pecyn amgen.

Ymchwil Cydgynghorol

1.13 Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn, comisiynodd Ofcom ymchwil annibynnol i fesur ymateb y cyhoedd trwy raglen o ymchwil cydgynghorol. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr ymchwil cydgynghorol ar wefan Ofcom ar 9 Hydref 2006.

Casgliadau

Amcanion Rheoleiddiol

1.14 O ran ei ddyletswyddau statudol, casglodd y Bwrdd y dylai amcanion rheoleiddiol pellach parthed hysbysebu teledu cydbwyso'r amcanion rheoleiddiol canlynol. Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedi ystyried yr holl dystiolaeth, mae Ofcom yn ehangu cwmpas yr amcan cyntaf i gynnwys holl blant dan 16 oed. Yr amcanion rheoleiddiol adolygedig yw:

- lleihau yn sylweddol faint o hysbysebu UBHS y caiff plant dan 16 ei weld, a thrwy hynny UBHS;
- diogelu plant hŷn ac iau , yn ogystal â rhieni, yn well trwy gyfrwng adolygiadau addas i safonau cynnwys hysbysebion, er mwyn lleihau ymrwymiad emosiynol plant gyda hysbysebion UBHS, a lleihau'r perygl bod plant a rhieni yn camddehongli hawliadau cynnyrch, a lleihau'r posibilrwydd o 'pŵer plagio';
- osgoi effeithiau anghyfartal ar refeniw darlledwyr;
- osgoi rheolaeth ymwthiol o hysbysebu yn ystod oriau darlledu i oedolion, o gofio y gall oedolion wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â negeseuon hysbysebion;
- sicrhau bod unrhyw fesurau sy'n cael eu gweithredu yn addas ac yn ddigon amserol i alluogi llywodraeth i arsylwi newidiadau i natur a chydbwysedd hyrwyddo bwyd erbyn yn gynnar yn 2007.

Mesurau Rheoleiddio

1.15 Wedi archwiliad manwl o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a'r holl dystiolaeth ar gael, penderfynodd Bwrdd Ofcom y dylai'r elfennau canlynol ffurfio rhan o'r pecyn o fesuriadau ar gyfer atal amserlennu hysbysebion teledu o gynnyrch bwyd a diod i blant:

- Dylai cyfyngiadau amserlennu fod yn gyfyngedig i gynnyrch bwyd a diod sy'n cael eu hasesu i fod yn cynnwys lefel uchel o fraster, halen neu siwgr (UBHS) yn ôl diffiniad cynllun proffilio maethol yr Asiantaeth Safonau Bwyd;

- Ni ddylid dangos hysbysebion am gynnyrch UBHS yn ystod neu o amgylch rhaglenni a gynhyrchir yn arbennig ar gyfer plant (sy'n cynnwys plant cyn-ysgol). Er mwyn osgoi amheuaeth bydd y mesur hwn yn tynnu holl hysbysebu UBHS oddi ar sianeli sy'n arbennig ar gyfer plant;

- Ni ddylid dangos hysbysebion am gynnyrch UBHS yn ystod neu o amgylch rhaglenni o apêl arbennig i blant.

1.16 Ynghyd â'r cyfyngiadau amserlennu hyn, bydd rheolau cynnwys adolygedig yn cael ei gosod ar gyfer holl hysbysebion bwyd a diod waeth pryd y mae wedi ei amserlennu.

1.17 Mae Ofcom hefyd yn cynnig diogelu pellach ar gyfer plant ysgol gynradd trwy atal defnyddio person enwog a chymeriadau trwyddedig, cynigion hyrwyddo a hawliadau am faeth ac iechyd mewn hysbysebion am gynnyrch UBHS mewn hysbysebion wedi eu hanelu at blant ysgol gynradd.

1.18 Bydd yr holl fesurau hyn hefyd yn berthnasol i nawdd rhaglenni.

Ymgynghoriad

1.19 Er mwyn cwrdd â'i amcan rheoleiddiol i ddiogelu plant iau a hŷn, cred Bwrdd Ofcom y dylid ehangu'r cyfyngiad parthed rhaglenni o apêl arbennig i blant i gynnwys **plant dan 16**. Mae hyn yn ehangu ar gynnig a wnaethom ym mis Mawrth i rwystro hysbysebion UBHS rhag ymddangos mewn rhaglenni o apêl arbennig i blant dan 9.

1.20 Os caiff ei weithredu, bydd y mesur hwn yn tynnu holl hysbysebu UBHS oddi ar raglenni cerddorol wedi eu cyfeirio at yr ifanc a rhai rhaglenni adloniant cyffredinol eraill (yn arbennig rhai sy'n cael eu hamserlennu yn gynnar gyda'r nos).

1.21 Mae gan y cynnig i rwystro rhaglenni o apêl arbennig i bobl dan 16 rhag dangos hysbysebion UBHS, a amlinellir uchod, gyrhaeddiad pellach yn nhermau darlledwyr a rhaglenni sy'n cael eu heffeithio gan y pecynnau a gynigiwyd gan Ofcom yn ei ddogfen ymgynghoriad ym mis Mawrth. Yn arbennig, bydd y cynnig yn rhwystro nifer o raglenni ar nifer o sianeli cerddoriaeth rhag dangos hysbysebion am, neu nawdd gan, gynnyrch UBHS, gan leihau cyfanswm eu refeniw o amcangyfrif o £2.4 miliwn y flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd yr effaith ar gyfanswm refeniw ar draws yr holl sianeli tua £22.6 miliwn y flwyddyn.

1.22 Mae Ofcom felly yn ymgynghori ar yr agwedd hon o'i fesuriadau rheoleiddio arfaethedig.

1.23 Yn ei gyfanrwydd, bydd y pecyn hwn o gyfyngiadau yn amddiffyn plant yn sylweddol ac fe gaiff effaith sylweddol ar nifer yr hysbysebion UBHS a welir ganddynt - gan ddarparu lleihad o 51% i blant 4-9 oed a 41% i blant 4-15 oed.

1.24 Byddai lleihad pellach mewn cartrefi sy'n derbyn teledu digidol ble mae rhaglenni plant, sianeli arbennig ar gyfer plant a rhaglenni o apêl arbennig i blant dan 16 yn gyfrifol am gyfran gynyddol o wylio gan yr ifanc.

Gweithrediad ac amseru

1.25 Bydd Ofcom yn cyhoeddi canlyniad ei ymgynghoriad pellach erbyn Ionawr 2007. Bydd y datganiad yn cadarnhau manylion y cyfyngiadau amserlennu fydd yn berthnasol i hysbysebion am a nawdd gan gynnyrch UBHS a geirio terfynol safonau cynnwys adolygedig BCAP.

1.26 Bydd cyfyngiadau yn berthnasol i'r holl sianeli sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom waeth beth yw lleoliad eu cynulleidfa darged.

1.27 Bydd cyfyngiadau amserlennu yn cychwyn ar ddiwedd Mawrth 2007, er y bydd sianeli arbennig ar gyfer plant yn cael cyfnod o'u cyflwyno'n raddol hyd at weithrediad llawn yn Rhagfyr 2008.

1.28 Daw rheolau cynnwys adolygedig ar gyfer ymgyrchoedd newydd i fodolaeth yn syth yn dilyn penderfyniad terfynol Ofcom. Bydd yn rhaid i bob ymgyrch sy'n bodoli eisoes gydymffurfio gyda'r rheolau newydd o 1 Gorffennaf 2007.

Strwythur y ddogfen hon

1.29 Mae'r ddogfen hon yn egluro'r sail resymegol am y casgliadau a amlinellir uchod ac fe'i strwythurir fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn amlinellu'n fras hanes y ddadl ynglŷn ag effaith hysbysebion teledu ar ordewdra mwn plant;
- Mae Adran 3 yn disgrifio dyletswyddau statudol a chyfrifoldebau Ofcom;
- Mae Adran 4 yn disgrifio'r gwaith a ymgymerwyd gan Ofcom a'r broses ymgynghorol;
- Mae Adran 5 yn crynhoi ymatebion a dderbyniodd Ofcom i'r materion a godwyd yn ei ddogfen ymgynghorol ym mis Mawrth a'i asesiad. Mae hyn yn cynnwys trafodaeth ynglŷn ag amcanion rheoleiddiol Ofcom, ac asesiad o ddulliau rheoleiddio posib a gynhwysir yn y ddogfen ymgynghorol gan gynnwys pecynnau arfaethedig Ofcom - Pecynnau1, 2 a 3, gwaharddiad ar fwyd UBHS cyn 9 pm ac Opsiwn 4 a awgrymwyd gan y diwydiant. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys trafodaeth ar broffilio maethol a rheolau cynnwys y BCAP;
- Mae Adran 6 yn dangos y penderfyniadau a wnaeth Ofcom parthed y materion a ddisgrifir yn Adran 5 gan gynnwys penderfyniadau i beidio â mabwysiadu rhai dulliau rheoleiddiol arbennig a'r dull fydd yn cael ei

weithredu gan gynnwys triniaeth y sianeli wedi eu trwyddedu yng Ngwledydd Prydain ond yn darlledu tramor. Mae'r adran hon hefyd yn dangos bod Ofcom yn ystyried mai Pecyn 1 yw'r mesur rheoleiddio gorau o'r rhai a ymgynghorwyd arnynt;

- Aiff Adran 7 ymlaen i ddisgrifio ac asesu ymhellach opsiynau pellach a ddatblygwyd gan Ofcom yn sgil ymatebion ymgynghorol ac ymchwil prynwyr. Mae'r rhain yn cynnwys Pecyn 1 Adolygedig, sy'n gwella ar Becyn 1 trwy ehangu defnydd o fynegeio o blant 4-9 oed i blant 4-15 oed, ac y cred Ofcom sydd yn cwrdd â'i amcanion rheoleiddio orau;

- Mae Adran 8 yn disgrifio pecyn dewisol Ofcom o fesuriadau ac yn amlinellu'r mater sydd angen ymgynghoriad pellach;

- Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys nifer o atodiadau sy'n cynnwys crynodeb lawn o ymatebion a dderbyniwyd yn Atodiad 5, Asesiad Effaith yn Atodiad 7 a geirio arfaethedig ar gyfer rheolau cynnwys adolygedig BCAP yn Atodiad 9.